# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Robert Smith | Adran Etholiadol: | Llwchwr Uchaf |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliwyd cyfanswm o 12 o gymorthfeydd gyda'r nos yn y Neuadd Les, Casllwchwr gennyf ac rwyf wedi cymryd rhan mewn 'cymorthfeydd stryd' drwy gydol hydref 2016 a gwanwyn 2017. Hefyd, es i i foreau coffi a oedd wedi darparu cyfleoedd i breswylwyr gwrdd â chynghorwyr lleol.

Yn ogystal, rwyf wedi cefnogi digwyddiadau lleol a gynhaliwyd gan Gyngor Tref Casllwchwr, Eglwys Dewi Sant, Capel Penuel, Capel Moriah, Ysgol Gynradd Tre Uchaf, Ysgol Gymraeg Pontybrenin, Clwb Rygbi Casllwchwr a Chlwb y Gweithwyr Casllwchwr.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 7 | / | 11 | 64 | % |
| Y Cyngor | 13 | / | 16 | 81 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc | 9 | / | 11 | 82 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal | 10 | / | 12 | 83 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg | 2 | / | 4 | 50 | % |
| **Cyffredinol** | **42** | **/** | **55** | 76 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu** | | | | | |
| Panel Ymchwilio Ysgolion | 0 | / | 2 | 0 | % |
| **Cyffredinol** | **0** | **/** | **2** | 0 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Cynghorydd, Cyngor Tref Llwchwr
Aelod o Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe
Cyfarwyddwr, Pwll Cenedlaethol Cymru, Abertawe
Aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Gŵyl Abertawe
Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Llywodraethwr, Ysgol Gyfun Gŵyr
Is-gadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Sgiliau Dinas a Sir Abertawe.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Sicrhau gwaith ailwynebu i balmentydd Heol Glebe, Heol Waun a Heol Corporation.
Sicrhau mesurau arafu traffig a therfyn cyflymder 20 mya ar Heol Waun mewn ymateb i bryderon a nodwyd ynghylch cyflymder a llif traffig yn yr ardal hon.
Cynrychioli barn preswylwyr mewn perthynas â datblygiad arfaethedig Tŷ'r Fry a monitro cynnydd y Cytundeb Adran 106 sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn.
Gwthio am Ardal Gemau Amlddefnydd i Lwchwr Uchaf.
Comisiynu arolwg cyflymder mewn rhannau o Lwchwr Uchaf.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Rwyf wedi gweithio ym maes polisi a dadansoddi addysg ers llawer o flynyddoedd, gan gyflwyno amrywiaeth o wasanaethau i awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a chleientiaid eraill. Mae'r rhain wedi bod mewn meysydd megis diwygio systemau cefnogi ysgolion, datblygu darpariaeth dysgu 14-19 oed, ailfodelu gweithlu, defnyddio staff cefnogi ysgolion, arweinyddiaeth ysgol, diwygio'r cwricwlwm a materion asesu.

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol hefyd:

24/05/2017 - Gwneud penderfyniadau da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
11/05/2017 - Côd Ymddygiad
14/06/2016 - Hyfforddiant y Pwyllgor Archwilio - y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Diacon, Capel Penuel, Casllwchwr.
Aelod o grŵp llywio sy'n archwilio llwybr hanes lleol yn ardal Llwchwr.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 18.01.2018. |